

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- a gynhaliwyd ar nos Iau, 12fed o Dachwedd, 2020 drwy 'Zoom', am 8:45 y.h. yn dilyn y prif gyfarfod.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Aled Davies, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans, Sion Aled Jones, Tegid Jones a'r Clerc.

Ymddiheuriadau.

Neb.

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 5ed o Ragfyr, 2019.

2. Cyllideb 2020/21 a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod) ac fe'i cymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd.

Bydd angen trefnu i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflen 'excel' oedd yn dangos:-

- Y gyllideb arian / gwariant hyd at 31.03.2021
- Y gyllideb llif arian cyfrif arian budd-cymunedol Lightsource hyd at 12.11.2020
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2021-2022

Roedd rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2021.

Ar 12.11.2020 roedd y symiau isod yn y 3 cyfrif:-

Cyfrifon	£
Cyfrif cyfredol	18,231.57
Cyfrif Budd cymunedol (Lightsource)	777.31
Cyfrif cadw	4,582.87
Cyfanswm	23,591.75

3. Trafodwyd fod nifer o bethau angen ei talu, ond nad oeddem wedi cael biliau amdanynt eto, fel ag sydd ar y daflen 'excel', megis bil £2000.00 am doiledau cyhoeddus Llanystumdwy, bil torri llwybrau, archwilio.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr/Chwefror 2021, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2021-2022:-

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern - angen gwneud hyn yn flynyddol.

- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 neuadd bob blwyddyn.
- Tocio caled ar y llwybrau – heb ei wneud eleni.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £250.00 bob blwyddyn.
- Arwyddion enwau lleol-ar bontydd/croesffordd- meddwl clustnodi tua £1000.00 eleni a £1000.00 flwyddyn nesaf i wneud y gwaith

5. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llangybi.

Mae £777.31 ar ol yn y cyfrif.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Llanystumdwy- heb gael biliau ganddynt eto, a bydd rhain yn cael ei talu o'r cyfrif Budd-cymunedol (Lightsource) cyn diwedd Mawrth 2021.

Derbyniwyd £3951.39 ar 07.02.2020, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn ddechrau 2021.

Prynwyd 4 hysbysfwrdd ddechrau 2020 am £2832.00 yn cynnwys T.A.W.

Eleni rhoddwyd £500.00 at O Ddrws i Ddrws, a bydd angen gwneud taliadau tuag at fudiadau lleol hefyd, (tua £1000.00+).

6. **Eisteddfod Genedlaethol-cronfa leol**, – trafodwyd y mater, ac oherwydd ein bod wedi cyfrannu £3,000.00 fis Chwefror 2020 tuag at yr Eisteddfod, penderfynwyd i aros cyn cyfrannu mwy, oherwydd y sefyllfa hefo'r 'Covid', ac roedd symiau da o arian yn cael ei codi'n lleol cyn y cyfnod y 'clo' fis Mawrth 2020.

7. Trafodwyd y mater o godi'r **Praesept 2021-2020**, i £18,000.00, sef ei gadw yr un ffigwr a llynedd, rhag ofn byddai angen talu am rywbeth brys, fel ag y gwnaed fis Ionawr 2020 yn sgîl y pandemig. Cyfranwyd £1500.00 tuag at brynu offer diogelwch i weithwyr meddygol/gofalwyr yr ardal. **Penderfynwyd gwneud penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 03.12.2020, er mwyn i'r cynghorwyr i gyd fedru gwneud penderfyniad.**

8. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2021.**

Llynedd talwyd £7950.00 o'r cyfrif cyfredol (yn cynnwys £3000.00 i'r Eisteddfod), a £1250.00 o'r cyfrif Budd Cymunedol yn gwneud cyfanswm o £9,200.00.

Cytunwyd i dalu ffigwr tebyg eleni, ond peidio talu £3000.00 i'r Eisteddfod.

Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, oherwydd cyfnod y 'clo', ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn nesaf ar 07.01.2021.